’YDI DUW YN EICH CYFRIF CHI’N BERSONOL YN BWYSIG?

Nodyn i’r siaradwr:
Ceisiwch ddwysau gwerthfawrogiad o ddiddordeb Jehofah ym mhob un ohonom. ’Rydym ni’n dangos diddordeb ynddo fe drwy astudio’i Air a thrwy weddio’n gyson.—Iago 4:8

DEDDFAU’R BYDYSAWD YN PROFI FOD GAN DDUW DDIDDORDEB YN Y DDYNOLIAETH (8 mun.)

Mae rhai pobl wedi dweud fod Duw yn farw—hynny yw, ei fod wedi ymddieithrio, heb ddiddordeb mewn materion dynol

Mae eraill wedi dweud y gallai fod gan Dduw beth diddordeb yn y bydysawd ond nad ydi e’n ymostwng i glywed unigolyn nac i gymryd diddordeb personol ynddo

Mae llawer o bethau y sylwn arnyn’ nhw’n ddyddiol sy’n profi diddordeb personol ar ran Duw ac sy’n dangos bwriad penodol (*ce* 129-41; *lp* 98-107)

Mae’r pethau hyn yn cadarnhau fod bwriad Duw yn gynyddol weithio er daioni i’r ddynoliaeth

Mae deddfau ffisegol yn anhepgor i barhad bywyd ar y ddaear

Mae gweithredu cyson, digyfnewid y deddfau ffisegol yn profi nad ydi Duw yn bell

Mae gwyddonwyr, y gall fod rhai ohonyn’ nhw’n gwawdio’r syniad o ffydd, eu hunain yn rhoi ffydd yn nibynadwyedd a chysondeb y deddfau ffisegol sy’n rheoli’r bydysawd

Mae deddfau cenhedlu yn datguddio bwriad da Duw tuag at y ddynoliaeth

Mae deddfau moesol yr un mor anochel ac yn hanfodol i fywyd pwrpasol

Bu canlyniadau drwg iawn o dorri deddfau moesol (Darllen Rhufeiniaid 1:26-31)

Rhagrith crefyddol yw’r ffurf fwyaf gresynus o dreisio deddfau moesol Duw (2Tim 3:5)

Mae Duw yn bwriadu harmoneiddio’r holl greadigaeth ddeallus â’i ddeddfau moesol fel na fydd mo’u treisio nhw mwyach

Mae’n amlwg o ystyried deddfau bydysawd Duw fod ganddo ddiddordeb yn y ddynoliaeth, ond a fedrwn ni ddweud ei fod yn rhoi ystyriaeth i bob unigolyn?

’FYDD DUW YN RHOI SYLW I BOB UNIGOLYN? (12 mun.)

I Dduw, mae arwyddocad i ‘bob un ohonom’ (Act 17:26, 27)

Profodd Crist ‘farwolaeth dros *bob* dyn’ (Heb 2:9)

Trwy ei aberth, prynodd Crist y ddynoliaeth, oedd ‘wedi ei gwerthu yn gaethwas i bechod’ (Rhuf 7:14)

Mae angen dod ag unigolion yn ôl i berthynas dda â Duw

Mae gan Iesu awdurdod i farnu dynion (Darllen Ioan 5:27-30)

’Ddylai person deimlo ei fod e’n rhy ddrwg, ei bod hi ar ben arno, i gael gobaith derbyn cymorth Duw? (*w*90 2/15 23 ¶4, 5)

Ystyriwch Eseia 1:18 a phrofiad yr apostol Paul (1Tim 1:15, 16)

I’r gwrthwyneb, camgymeriad trist ydi i berson feddwl y gall ennill ffafr Duw dim ond am ei fod yn “dda” neu yn cyflawni gweithredoedd nerthol (Mth 7:22, 23; Mc 10:18; Rhuf 3:10; 4:2, 3; 10:1-3)

Gallwn ddweud wrth rai sy’n anobeithio fod cariad Jehofah at y rhai sy’n ei geisio’n ddiwyd yn llawer mwy nag unrhyw gariad y medrem ni ei fynegi (Darllen Rhufeiniaid 8:38, 39)

Tra ’roedd e ar y ddaear, dangosodd Iesu fod ganddo yntau’r un agwedd gariadus tuag at y ddynoliaeth (Mc 1:40, 41)

Er mwyn medru deall Duw a’i ffyrdd, rhaid cael ei help e

Mae e’n agor meddwl person i ddeall (In 6:44)

’Fedr neb ddeall Duw heb help ei ysbryd (1Cor 2:11, 12)

Gwelir diddordeb Duw ym mhob unigolyn wrth Iddo ddarparu’r atgyfodiad (*Lmn* 20-1; *lp* 116-19)

Er mwyn atgyfodi person, mae’n rhaid i Dduw gael manylion llawn am y person hwnnw fel y bydd yr unigolyn *yr union bersonoliaeth* ag ydoedd cyn ei farw

Bydd Duw yn gweithredu’r atgyfodiad trwy Grist, a atgyfodwyd ei hunan

Gan fod gan Dduw ddiddordeb ym mhob un ohonom ni, gallwn ddisgwyl y byddai’n trefnu pethau fel y gallem wybod beth ydi ei fwriadau. ’Wnaeth e hynny?

GALLWN WYBOD Y GWIRIONEDD AM DDUW (12 mun.)

Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion y gallent wybod y gwirionedd (Darllen Ioan 8:31, 32)

Fe wyddai fod y gwirionedd ganddo oherwydd iddo fod gyda Duw am oesoedd cyn dod i’r ddaear

Fe wyddai’r apostolion y gwirionedd am iddynt ei ddysgu o’r Ysgrythurau Hebraeg a chan Grist

Medrwn ninnau wybod y gwirionedd am fod gennym ysgrifeniadau’r apostolion a’u cymdeithion

Mae cofnod y Beibl yn anhepgor i gael golygwedd Duw ac er mwyn deall Ei egwyddorion

Oherwydd ysgrifennu’r Beibl gan ddynion dan ysbrydoliaeth Duw a’i fod e’n ymdrin â bywydau dynion a merched, mae e’n fwy cynnes, yn apelio’n fwy, ac yn fwy realistig na phe bai wedi’i ysgrifennu gan angylion

Fe arolygodd Duw bob agwedd ar ei gynhyrchu gan ei amddiffyn rhag anghywirdebau neu syniadau syml dynion (*si* 10 ¶19, 20)

Mae gennym yn y Beibl eiriau Iesu, oedd yn dyst i wirionedd Gair Duw

Cadwyd y Beibl fel gwirionedd Duw (*gm* 12-24)

Mae'r Beibl yn berffaith gan ei fod yn rhoi i berson â ffydd bopeth sydd ei angen arno er mwyn *cyflawn ddarpariaeth* (2Tim 3:15-17)

Mae e'n berffaith hefyd yn yr ystyr ei fod yn ddigonol ar gyfer ffydd sy'n arwain i iachawdwriaeth

Tra mai cyfathrebu oddi wrth Dduw â ni ydi'r Beibl, mi fedrwn ninnau gyfathrebu â Duw trwy weddi

Dylai person heddiw gydnabod Duw a dod ato trwy Grist, gan gydnabod mai pechadur ydi'r deisyfwr sydd ag angen help arno (*w*90 1/15 4, 6)

Beth sy'n bynciau addas i weddi? (Darllen 1 Ioan 5:14)

Unrhyw beth sy'n ymwneud â'n perthynas â Duw neu a fydd yn effeithio arnom ni'n ysbrydol

Daw atebion ar ffurf cyfarwyddyd yn y Beibl, ein brodyr, ac ymwneud Duw

Rhaid inni ddyfalbarhau mewn gweddi

Mae dau gwestiwn yn codi'n naturiol. 'Oes gennym ni'n bersonol ffydd bod gan Dduw ddiddordeb ynom ni? 'Wnaiff e gyflawni'i fwriad?

MAE DUW WEDI BOD YN GWEITHIO'N GYNYDDOL O'R CYCHWYN I GYFLAWNI EI FWRIAD DA (13 mun.)

Ni fedrir gweld gwaith cynyddol Duw heb ffydd

'Dyw'r rhai sy'n edrych ar bethau heb ffydd ddim yn gweld bwriad Duw ar waith—mae pethau'n edrych yn hollol i'r gwrthwyneb iddyn' nhw

Yn 66 C.C. amgylchynodd y Rhufeiniaid Jerwsalem dan arweiniad Cestius Gallus ac yna dynnu'n ôl. Ffôdd y rhai yn Jerwsalem oedd â ffydd yng ngeiriau Iesu; arhosodd y rhai heb ffydd. Yn ddiweddarach, dychwelodd y milwyr Rhufeinig a difa'r rhai oedd wedi aros (Lc 21:20, 21)

Mae pobl â ffydd ganddyn' nhw'n gweld y tu hwnt i'r olwg allanol dwyllodrus; mae ganddyn' nhw "sicrwydd o bethau na ellir eu gweld" gan y person cyffredin sydd heb ffydd (Heb 11:1)

Mae Jehofah wedi cymryd amser i addysgu dynion am ei lywodraeth a gosod sail i ffydd

Mae'r Hollalluog wedi darparu'r pethau angenrheidiol hyn:

(1) Gwybodaeth am egwyddorion ei lywodraeth

(2) Dangosiad o'i nodweddion

(3) Adnabyddiaeth digamsyniol o'r Meseia, y Brenin

Dewisodd Duw genedl Israel yn gyfrwng arddangos ei egwyddorion a'i nodweddion

Mae hanes *Israel* yn dangos yr hyn sy'n digwydd pan ufuddheir neu anufuddheir i ddeddfau Duw; mae hanes *y byd* yn datgelu'r canlyniad i'r rhai sydd heb ddeddf ddwyfol (Eff 4:17-19)

Dewiswyd Israel oherwydd cariad Duw at Abraham (Deut 7:7, 8)

Parhaodd Duw i sicrhau anghenion y cenhedloedd eraill ond nid oedd e'n ymwneud â nhw

Defnyddiodd Jehofah hefyd ddynion ffyddlon o Iddewon i ysgrifennu'r Ysgrythurau Hebraeg (Darllen Rhufeiniaid 3:1, 2)

'Roedd Duw yn llywio pethau i ddarparu'r "had," paratoi yn gadarnhaol ar gyfer medru ei 'nabod e gan wneud patrymau pethau i ddod (Gen 3:15)

Yn ystod ei wasanaeth ar y ddaear, yn ofalus fe ddewisodd Iesu'r rhai a fyddai'n agos iawn ato yn ei Deyrnas

Mae hyfforddi'r 144,000 a rhoi prawf arnyn' nhw dros y 1,900 mlynedd sydd wedi mynd heibio wedi profi fod y rhai a ddewiswyd yn bobl fydd yn dragwyddol deyrngar (Dat 14:1-4)

Mae sicrwydd inni y bydd 'na deyrnaswyr trugarog ar gyfer y "ddaear newydd" (2Pedr 3:13)

Rhoddwyd prawf ym mhob agwedd ar Grist ei hun, ac mae e'n deall gwneuthuriad dynion a'u problemau (Heb 4:15)

Ar gyfer teyrnas nefol rhaid bod deiliaid daearol (*ws* 164-8; *lp* 140-3)

Rhaid bod cnewyllyn i oroesi difa'r drefn lwgr hon (Dat 7:9, 14)

Bydd miliynau a atgyfodir yn ymuno â'r goroeswyr ac yn cael eu dysgu ganddyn' nhw

Mae gan Dduw ddiddordeb yn y biliynau sydd wedi byw ynghynt (Darllen 2 Pedr 3:9)

Mi fedrwn ni astudio Gair Duw ac fe ddylem wneud hynny a gwasanaethu Jehofah yn ddiwyd, gan ddangos ein bod yn gwerthfawrogi ei ddiddordeb ynom ni ac edrych ymlaen at fywyd dan lywodraeth ei Deyrnas

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)